Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Llanfairpwll
# Y Gorlan
# Trem Eryri
# Llanfairpwll
# LL61 5JF

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2019

## gan

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

## a

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Llanfairpwll

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Llanfairpwll |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Gwyn Pleming |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | N/A |
| Person â gofal | Nerys Williams, Bethan Jones, Lowri Roberts |
| Nifer y lleoedd | 44 |
| Amrediad oedran y plant | 2½ - 4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 5 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 08.50 – 15.00 o Ddydd Llun i Ddydd Gwener yn ystod tymor ysgol |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Ydy |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu "cynnig gweithredol" y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasnaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 13/12/2016 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 18/06/2014 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 19/02/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Mae'r lleoliad yn cynnig darpariaeth Cylch Meithrin i blant rhwng 2½ hyd at 3 oed a Chlwb Gofal i blant 3 a 4 oed sydd yn derbyn eu haddysg ran amser yn yr ysgol. Mae 41% yn siarad Cymraeg yn y cartref.

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Digonol** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Digonol** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Digonol** |
| **Yr amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |

## Diffyg cydymffurfio

Gwnaethom hysbysu'r person cofrestredig nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau canlynol:

Rheoliad 6 oherwydd nad oedd tystysgrif gwasanaeth datgelu a gwahardd gyfredol gan y person cofrestredig.

Rheoliad 16 oherwydd nad oeddent wedi cwlbhau adolygiad ansawdd cyfredol blynyddol

Rheoliad 28 oherwydd nad oedd gwybodaeth lawn a boddhaol ar gyfer pob aelod o staff.

**Nid ydym wedi cyhoeddi  hysbysiad ar yr achlysur hwn, gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol ac arwyddocaol ar y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r person cofrestredig gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.**

## Argymhellion

A1 Datblygu medrau annibynnol y plant

A2 Gweithredu ar ganfyddiadau'r asesu ac arsylwadau i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r plant

A3 Sicrhau bod ymarferwyr yn cynllunio medrau llythrennedd a rhifedd yn systematig ar draws y ddarpariaeth

A4 Gwella prosesau hunanarfarnu i sicrhau ffocws ar ddeilliannau a gwelliannau ar draws y lleoliad

A5 Mynd i'r afael â materion diffyg cydymffurfio

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn a AGC yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Digonol

Mae bron pob un o'r plant yn ymgartrefu'n gyflym i'r drefn ddyddiol ac yn hunangofrestru eu presenoldeb yn llwyddiannus. Maent yn mynd yn syth at eu gweithgareddau heb anogaeth. Mae bron pob un yn teimlo'n ddiogel ac maent yn hapus i gael eu cysuro gan ymarferwyr, pan fydd angen. Mae bron pob plentyn yn ffurfio perthynas agos â'r ymarferwyr sy'n magu hyder a hunan-barch y plant yn gadarn.

Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn rhyngweithio’n llwyddiannus gyda’i gilydd ac yn deall y rheolau ar gyfer ymddygiad derbyniol yn dda. Mae bron pob un ar draws y lleoliad yn gwrando ac ymateb yn dda i gyfarwyddiadau ac yn parchu ymatebion eraill, er enghraifft wrth roi amser i’w ffrindiau ateb cwestiynau yn ystod amser cylch. Mae bron pob un plentyn yn ymateb yn effeithiol i ganmoliaeth ac yn dangos balchder yn eu gwaith. Mae bron pob un yn gwneud eu dewisiadau eu hunain o fewn y ddarpariaeth ac maent yn symud yn hyderus o un ardal chwarae i’r llall. Er enghraifft, mae pob plentyn yn penderfynu ble maent eisiau chwarae a chyda phwy. Mae lleiafrif yn arwain eu chwarae eu hunain yn briodol, er enghraifft wrth benderfynu defnyddio'r babell fel awyren lle maent yn mynd ar drip gyda’u teganau.

Mae’r mwyafrif o’r plant yn canolbwyntio am gyfnod priodol o amser wrth ymwneud â thasgau neu wrth chwarae, er enghraifft wrth beintio llun o gennin Pedr. Mae’r rhan fwyaf yn mwynhau’r gweithgareddau sydd ar gael iddynt. Fodd bynnag, mae lleiafrif o blant yn dangos diffyg brwdfrydedd ynglŷn â’u gweithgareddau ac nid ydynt yn awyddus i ddyfalbarhau i ddatrys problemau. Mae’r mwyafrif yn dechrau datblygu iaith estynedig yn addas yn ystod gweithgareddau a arweinir gan ymarferwyr.

Mae lleiafrif o’r plant yn dechrau datblygu annibyniaeth yn addas, er enghraifft wrth olchi dwylo neu wrth wisgo cotiau. Fodd bynnag, mae’r mwyafrif o blant yn or-ddibynnol ar gymorth oedolion ac nid ydynt yn cymryd digon o gyfrifoldeb dros eu hunain. Mae bron pob plentyn yn datblygu eu medrau corfforol yn briodol ac maent yn dysgu am iechyd da yn llwyddiannus wrth ddeall bod bwyta ffrwythau ac yfed llaeth neu ddŵr yn dda iddynt.

### Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant oherwydd nid oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol

### Gofal a datblygiad: Digonol

Mae ymarferwyr yn gweithredu’r mwyafrif o bolisïau a gweithdrefnau’r lleoliad yn briodol. Mae’r ymarferwyr yn hybu bwyta’n iach yn briodol trwy baratoi byrbrydau a diodydd addas. Maent yn dilyn gweithdrefnau hylendid priodol, er enghraifft drwy sicrhau bod y byrddau'n cael eu glanhau cyn ac ar ôl amser bwyd. Mae ganddynt gymwysterau perthnasol i’w galluogi i ymdrin â man anafiadau os bydd angen. Mae

ymarferwyr yn cadw cofnodion o unrhyw ddamweiniau yn foddhaol ac yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r wybodaeth yn cael ei chynnwys. Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn diwallu anghenion unigol plant yn briodol; er enghraifft, maent yn ymateb yn gadarnhaol i unrhyw geisiadau am anghenion diet ond nid yw pob ymarferydd yn gwbl ymwybodol o anghenion meddygol pob plentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r mwyafrif o ymarferwyr yn rheoli ymddygiad mewn modd cadarnhaol, ar y cyfan. Maent yn siarad â'r plant yn garedig ac yn defnyddio iaith y mae'r plant yn ei deall. Mae ymarferwyr yn canmol plant am eu cyflawniadau ac yn parchu penderfyniadau'r plant, er enghraifft wrth ganiatáu iddynt ddewis eu gweithgareddau neu benderfynu ble yr oeddent am eistedd yn ystod amser bwyd. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r ymarferwyr yn dilyn polisi rheoli ymddygiad y lleoliad yn gyson.

Mae'r mwyafrif o ymarferwyr yn cynllunio'n fras ar gyfer gweithgareddau a chofnodi datblygiad plant. Fodd bynnag, ar draws y lleoliad, nid yw'r cynlluniau bob amser yn digwydd o flaen llaw ac nid ydynt yn bodloni anghenion unigolion yn bwrpasol. Mae tua hanner yr ymarferwyr yn olrhain cynnydd plant yn fanwl. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn natblygiad y plant. Mae gan y lleiafrif o ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer y plant, er nid yw ymarferwyr bob amser yn darparu gweithgareddau dyddiol hwyliog i annog annibyniaeth y plant.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod berthnasol o brofiadau ar draws y ddarpariaeth, sy'n adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn dda. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd addas o ddulliau addysgu ac adnoddau priodol i lywio'r dysgu yn gadarn. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae'r ymarferwyr yn dynwared emosiwn cymeriad mewn stori, ac, o ganlyniad, mae'r plant yn deall y stori yn dda. Mae'r ymarferwyr ar draws y lleoliad yn cydweithio'n gydwybodol i ddarparu gweithgareddau diddorol sy'n annog plant i ymgartrefu'n syth, er enghraifft trwy gyfri pengwiniaid wrth bysgota yn y twba dŵr. Mae'r ymarferwyr yn cyd-drafod er mwyn cyfrannu'n gadarnhaol at frwdfrydedd plant, ond nid ydynt bob amser yn cynllunio'n fwriadus i ddatblygu medrau penodol a'r dysgu yn effeithiol.

Mae ymarferwyr yn trafod fel tîm i baratoi gweithgareddau ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd pwrpasol sy'n ymwneud â'r thema. Mae'r medrau hyn yn cael eu cyflwyno'n effeithiol mewn gweithgareddau dyddiol ac wrth ganu, er enghraifft wrth rifo am bump o bengwiniaid yn diflannu. Fodd bynnag, nid yw medrau llythrennedd a rhifedd yn cael eu hyrwyddo yn gyson mewn tasgau dan arweiniad oedolyn neu yn yr ardaloedd dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo medrau technoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y ddarpariaeth yn briodol trwy ddefnyddio llechen electronig a phegiau sain. Enghraifft dda o hyn yw'r defnydd pwrpasol o'r llechen electronig i annog y plant i gofnodi gweithgareddau a chyflawniadau trwy dynnu ffotograffau a'u hannog i adalw lluniau blaenorol yn llwyddiannus.

Mae'r amrywiaeth o asesiadau yn rhoi darlun clir o ddatblygiad pob plentyn ac mae'r ymarferwyr yn deall yn effeithiol beth yw'r cam nesaf yn eu datblygiad. Serch hynny, nid yw ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth yn ddigon cadarn i ddylanwadu ar dasgau neu ar ddatblygu'r ddarpariaeth yn ôl anghenion a diddordebau'r plant.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn briodol.  Mae’r ymarferwyr yn darparu rhai cyfleoedd diddorol sy’n cymell plant i ddangos ymdeimlad o ddiddordeb am fywydau pobl eraill ar draws y byd.  Er enghraifft, maent yn eu hannog  i gymharu bywyd yn yr Arctig â’u bywydau nhw drwy drafod siopa yng Nghymru a hela am fwyd wrth bysgota yn yr Arctig.  Mae ymarferwyr yn hyrwyddo diwylliannau lleol a chenedlaethol wrth ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a diwrnod Santes Dwynwen.  Fodd bynnag, nid ydynt yn manteisio’n llawn ar ymweliadau ac ymwelwyr o’r gymuned i gyfoethogi profiadau dysgu’r plant.

**Yr amgylchedd:  Digonol**

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel ar gyfer y plant.  Maent yn cwblhau gwiriadau diogelwch yn rheolaidd ac yn sicrhau bod yr ardaloedd chwarae a dysgu yn lân.  Ar y cyfan, mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar i blant ac yn arddangos gwaith y plant yn addas yn eu hystafelloedd.  Mae arweinwyr yn trefnu’r amgylchedd yn briodol er mwyn bodloni anghenion llawer o blant, er enghriafft wrth sicrhau bod y toiledau a’r basnau golchi ar lefel isel addas ar gyfer y plant ifancaf.  Yn gyffredinol, mae’r amgylchedd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i’r plant symud o gwmpas yr ardaloedd ac adnoddau yn llwyddiannus.

Mae gan y lleoliad ystod eang o adnoddau da ar gyfer y plant sy’n derbyn addysg.  Mae’r adnoddau hyn yn addas ar gyfer y plant ac wedi’u trefnu’n bwrpasol.  Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o’r adnoddau hyn i ymestyn profiadau dysgu a chwarae’r plant.  Er enghraifft, rhoddir cyfleoedd effeithiol i blant arbrofi gyda gwahanol ddefnyddiau, fel gwneud lluniau mewn blawd pobi a chreu wynebau o bwmpenni gan gynnwys defnyddio cnawd y llysieuyn i gyffwrdd a theimlo.  Ar draws y lleoliad, mae adnoddau fel llyfrau a doliau yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol y plant yn effeithiol.  Mae ychydig o adnoddau yn hybu ymwybyddiaeth ddiwylliannol Cymreig yn llwyddiannus, er enghraifft wrth i blant wrando ar ganeuon traddodiadol gan y ddraig goch.  Fodd bynnag, yn y clwb gofal, mae ychydig o’r adnoddau yn hen ac nid ydynt o ansawdd digon da.

Mae ansawdd yr amgylchedd allanol yn amrywio.  Mae gan y plant iau le chwarae addas y tu allan a defnyddir yr adnoddau yn addas i hyrwyddo chwilfrydedd naturiol plant i ddysgu.  Er bod yr holl blant yn rhannu un ardal yn benodol, mae'r ardal ddynodedig ar gyfer y plant hŷn yn unig yn fach.  O ganlyniad, nid yw'r ardal allanol yn caniatáu digon o le i’r plant ehangu eu chwarae a'u profiadau’n llwyddiannus.  Yn ogystal, mae adnoddau sydd ar gael i’r plant yn yr ardal hon yn gyfyngedig.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Digonol**

Mae’r arweinwyr yn gweithio fel tîm i roi ffocws cyson ar les plant i greu ethos gofalgar a chyfeillgar trwy gyfrwng y Gymraeg.  O ganlyniad, mae’r plant yn hapus ac yn ymddwyn yn dda.  Fodd bynnag, nid yw arweinyddiaeth y lleoliad cyfan yn hyrwyddo ac yn cynnal gwelliannau ar draws y ddarpariaeth gofal ac addysg.

Mae rhai arweinwyr yn cynnal gwelliannau’n effeithiol sy’n effeithio’n uniongyrchol ar safon y ddarpariaeth.  Enghraifft dda o hyn yw’r ffordd maent wedi datblygu’r ddarpariaeth yn yr ardal allanol i symbylu’r plant yn yr awyr iach.  Fodd bynnag, nid yw’r datblygiadau hyn yn ddigon cydlynol ar draws darpariaeth yr holl leoliad.  Mae’r ymarferwyr yn darparu gweithgareddau diddorol ar gyfer y plant, ond nid ydynt yn eu cynllunio’n ddigon pwrpasol na systematig ar draws y ddarpariaeth, tu mewn i’r adeilad nac yn yr awyr agored. O ganlyniad, mae cynnydd y plant yn anghyson.

Mae’r arweinwyr yn amrywio’r ddarpariaeth yn rheolaidd i ennyn diddordeb y plant o fewn ardaloedd dysgu a chwarae yn addas. Mae’r ddarpariaeth gofal plant yn cael ei ailsefydlu’n ddyddiol, gan ei bod yn rhannu’r ystafell gyda’r clwb gofal ar ôl ysgol. Fodd bynnag, nid yw’r ardaloedd hyn yn ysgogi a chymell y plant yn ddigon effeithiol.

Mae’r ymarferwyr yn cynnal hunanwerthusiad ac adolygiad ansawdd fel timau unigol ond nid ydynt bob amser yn adnabod gwir anghenion y lleoliad. O ganlyniad, nid oes ddigon o ffocws ar godi safonau a datblygu’r ddarpariaeth i fodloni anghenion a dilyn diddordebau’r plant. Mae’r arweinwyr yn cydweithio’n effeithiol gyda swyddogion yr awdurdod lleol ar sut i weithredu gwelliannau. Enghraifft dda o hyn yw sgrinio iaith y plant er mwyn adnabod anghenion unigolion.

Mae gweithdrefnau addas ar waith i benodi a chefnogi staff. Mae’r pwyllgor rheoli yn sicrhau bod gan ymarferwyr gymwysterau addas i gyflawni eu swyddi ac i gefnogi anghenion yr holl blant yn foddhaol. Mae gan y mwyafrif o ymarferwyr swydd ddisgrifiadau priodol ac mae’r mwyafrif yn deall eu cyfrifoldebau yn ddigonol. Serch hynny, nid yw’r ymarferwyr yn deall ac yn gweithredu polisiau a gweithdrefnau’r lleoliad yn ddigon effeithiol. Mae’r person cofrestredig yn arfarnu gwaith pob ymarferwr yn flynyddol ac yn trafod eu perfformiad a’u hanghenion o ran datblygiad proffesiynol parhaus. Fodd bynnag, nid oes goruchwyliaeth reolaidd o staff na hyfforddiant dilynol pwrpasol i dargedu anghenion yr holl ymarferwyr.

Mae’r lleoliad yn meithrin cydweithio effeithlon gydag ystod o bartneriaethau gan gynnwys yr awdurdod lleol, Mudiad Meithrin a’r ysgol gynradd leol. Mae cyswllt dyddiol gyda rhieni yn cyfrannu’n helaeth at les y plant. Er hyn, nid yw’r arweinwyr yn manteisio’n llawn ar ddulliau rhannu gwybodaeth ar gynnydd a chyflawniad y plant gyda’r rhieni.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/04/2019